



Adventures in the Skin Trade
gan Dylan Thomas, addasiad ar gyfer y llwyfan gan Lucy Gough gyda Theatr Iolo

Cyfarwyddwr Artistig / Prif Weithredwr

Pecyn Cais - Mawrth 2018

Artistic Director / Chief
Executive

Application Pack - March 2018



Out of the Blue
Cyd-gynhyrchiad gyda Sarah Argent. Cyfarwyddwyd gan Sarah Argent.
Perfformiad agos-atoch, hudolus ar gyfer babanod / plant bach 6-18
mis oed (a'u hoedolion).



Pen-blwydd Poenus Pete
Comedi frathog a phefriog a golwg amharchus ar fywyd teuluol gan y
dramodydd nodedig, Gary Owen.





Helo a diolch i chi am eich diddordeb yn Theatr Iolo!

Mae Theatr Iolo yn gwmni theatr gwobrwyol a fu ar flaen y gad ym myd theatr i blant a phobl ifanc ers deng mlynedd ar hugain. Mae plant a rhieni, disgyblion ac athrawon, babanod a phobl ifanc yn eu harddegau wedi mwynhau perfformiadau, gweithdai a chynyrchiadau gan y cwmni, ac fe gyflwynwyd y rhain mewn lleoliadau o bob math ledled Cymru, y DG ac yn rhyngwladol.

Ein nod yw rhannu straeon sy'n para am oes, creu profiadau safonol, ysgogol, syfrdanol ac unigryw i blant o bob oed.

Rydym yn frwd o blaid meithrin dychymyg a chreadigrwydd plant, i'w helpu nhw i wneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas, i'w ddeall ac i ddod o hyd i'w lle ynddo.

Ar ôl 27 mlynedd anhygoel fel Cyfarwyddwr Artistig, mae Kevin Lewis yn camu o'r neilltu ddiwedd mis Mawrth 2018. Mae hynny'n nodi diwedd cyfnod i'r cwmni, cyfnod a arweiniodd at sicrhau bod Theatr Iolo yn gwmni solet a chryf a chanddo enw ardderchog. Wrth edrych ymlaen, bydd y cwmni'n parhau i ffynnu trwy roi pobl ifanc wrth galon ein cwmni, gan gydweithio â phlant, athrawon, artistiaid, lleoliadau a phartneriaid creadigol i gyflwyno gwaith perthnasol ac ystyrlon.

Wrth i ni ddechrau ar bennod gyffrous nesaf ein stori, rydym yn chwilio am Gyfarwyddwr Artistig / Prif Weithredwr newydd a Rheolwr Cyffredinol i arwain y cwmni. Yn ddelfrydol, bydd o leiaf un o'r bobl a benodir i'r rolau hyn yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg. Os ydych chi'n rhannu ein brwdfrydedd theatrig ni, i feithrin dychymyg a chreu straeon a fydd yn para am oes, rydym am glywed gennych! Mae hwn yn gyfle gwych i arwain y tîm, i ddatblygu ein hanes anhygoel, ac i siapio'r cwmni at y dyfodol.

Bydd y **Cyfarwyddwr Artistig / Prif Weithredwr** unai yn gyfarwyddwr neu gynhyrchydd artistig profiadol. Bydd yn arweinydd ysbrydoledig ac yn meddu ar y weledigaeth a'r gallu i ddiffinio a gweithredu'r amcanion artistig sy'n diffinio Theatr Iolo. Bydd yn gyfrifol am sicrhau bod y cwmni'n cyflawni ei amcanion artistig, a'i nodau craidd o ran cynulleidfa oedd a nawdd.

Os hoffech chi wneud cais am swydd y **Cyfarwyddwr Artistig / Prif Weithredwr**, lawrlwythwch y ffurflen monitro cyfleoedd cyfartal o'n gwefan www.theatriolo.com a'i dychwelyd atom, ynghyd â CV a llythyr cais. Rydym yn edrych ymlaen at glywed pam fod gennych ddi-ddordeb yn y swydd hon, a pha sgiliau a phrofiad y gallwch chi eu cyflwyno i'r cwmni (ar ôl cyfeirio at y disgrifiad swydd a'r manyleb personol).

Bydd angen i chi gyflwyno eich cais i Sue Wardle, Cyfarwyddwr Dros Dro, trwy e-bostio sue@theatriolo.com. Neu gallwch anfon cais drwy'r post at Sue t/l Canolfan Gelfyddydau Chapter, Tŷ'r Farchnad, Heol y Farchnad, Caerdydd, CF5 1QE. Os bydd gennych chi gwestiynau neu os hoffech chi drafod eich cais, cysylltwch â Sue ar e-bost i drefnu sgwrs.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw canol dydd ar ddydd Gwener **20 Ebrill 2018** ac fe gynhelir cyfweiliadau rhagarweiniol rhwng **2 a 4 Mai 2018** yng Nghaerdydd. Byddwn yn cadarnhau ar ebost ein bod wedi derbyn eich cais.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Sue Wardle
Cyfarwyddwr Dros Dro



Mwy amdanom ni

Mae Theatr Iolo yn gweithredu o Dŷ'r Farchnad yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter yn Nhreganna, Caerdydd. Yn ogystal â'r swydd wag hon a swydd y Rheolwr Cyffredinol, mae'r tîm yn cynnwys Gweinyddwr rhan-amser, Cynhyrchiydd (Platfform), a Swyddog Marchnata, yn ogystal â theulu o artistiaid cysylltiol.

Rydym yn gwmni preifat nad yw'n cymryd elw, cyfyngedig trwy warant, ac yn elusen gofrestrdig. Mae'r cwmni'n cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Theatr Iolo wedi cyflwyno:

- cyd-gynhyrchiad gyda Chanolfan Gelfyddydau Battersea, *Dark Corners* gan Polarbear, gyda pherfformiadau i ysgolion a pherfformiadau cyhoeddus yn BAC ac yna mewn lleoliadau ledled Cymru;
- *Baby Show*, cynhyrchiad gan Unicorn ar y cyd â Theatr Iolo, gyda pherfformiadau rheolaidd i fabanod yn Theatr Unicorn;
- ymweliad cyfnewid llwyddiannus â Kolkata, India, gyda pherfformiadau o *Out of the Blue*, cynhyrchiad i fabanod gan Sarah Argent a Theatr Iolo;
- *Twenty16*, cyd-gynhyrchiad gyda Neuadd Les Ystradgynlais i bobl ifanc yn eu harddegau, a sioe a enwebwyd am wobrau;
- gwaith parhaus ar ail flwyddyn Platfform, ein rhaglen datblygu artistiaid tair blynedd o hyd.

Yn ystod y cyfnod nesaf, rydym yn falch iawn o allu datblygu cynlluniau i berfformio yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Awst 2018, a byddwn yn mynd â gwaith ar daith yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ogystal â chefnogi artistiaid i ddatblygu eu gwaith eu hunain ar gyfer teuluoedd a phlant. Byddwn hefyd yn datblygu dramâu newydd ar gyfer plant yn eu harddegau ac yn dathlu ein pen-blwydd yn 30 oed. Mae'r garreg filltir honno yn gyfle i ni ddathlu ein cyflawniadau yn ystod y 30 mlynedd diwethaf ac i ni rannu stori Theatr Iolo a'i rôl wrth ddiffinio theatr i blant yng Nghymru. Mae'n achlysur perffaith i dynnu sylw at waith pwysig cwmni sy'n rhannu straeon gyda chynulleidfaoedd ifanc.

I gefnogi hyn oll, byddwn yn adnewyddu ein gwefan a'n cyfathrebu digidol, yn datblygu ac yn gweithredu strategaeth Dysgu Creadigol newydd ac yn ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd mewn ffyrdd arloesol.



Get Creative 2017





Cyfarwyddwr Artistig / Prif Weithredwr

Atebol i Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr

Oriau:	Yn ôl yr angen, er mwyn gwneud y swydd
Cyflwg:	tua £37,000 yn ddibynol ar brofiad
Cytundeb:	Cynigir y swydd fel swydd lawn-amser, barhaol, ar ôl cwblhau cyfnod prawf llwyddiannus o 6 mis
Gwyliau:	28 diwrnod gwaith y flwyddyn ynghyd â gwyliau statudol. Ar ôl dwy flynedd o wasanaeth, cynigir diwrnod ychwanegol o wyliau bob blwyddyn, hyd at uchafswm o 35 diwrnod gwaith y flwyddyn
Cyfnod Notis:	3 mis

Prif bwrpas y swydd

Mae'r Cyfarwyddwr Artistig yn uniongyrchol atebol i'r bwrdd ymddiriedolwyr ac yn Brif Weithredwr Theatr Iolo. Gyda chefnogaeth y Rheolwr Cyffredinol, mae'r Cyfarwyddwr Artistig yn gyfrifol am strategaeth a gweledigaeth gyffredinol y cwmni, gyda chyfrifoldeb arbennig dros weledigaeth a pherfformiad artistig.

Cyfrifoldebau holl aelodau'r staff

Mae pob aelod o dîm Theatr Iolo yn frwd o blaid y celfyddydau, a'r theatr yn arbennig, ac mae aelodau'r tîm yn gyfranogwyr gweithgar yn y theatr a'r gymuned artistig yng Nghymru. Mae pob aelod o'r tîm yn wirioneddol falch o'r cyfle i weithio i gwmni sy'n rhoi pobl ifanc wrth galon ei weithgarwch. Rydym yn gwmni bach ac mae pob aelod yn llysgennad i'r sefydliad ac yn gweithredu fel eiriolwyr brwd o blaid gwaith Theatr Iolo a gweledigaeth y cwmni. Disgwylwn i bawb barchu a chynnal ein henw da.

Bydd pob cydweithiwr yn dra chymwys yn ei f/maes gweinyddol o ddydd i ddydd ac fe fydd ganddynt sgiliau trefnu da. Rydym yn annog staff i weithio'n ddychmygus ac mewn modd hyblyg er mwyn mynd i'r afael â'r heriau y byddant yn eu hwynebu.

Mae pob aelod o staff yn annog ac yn cefnogi cydweithwyr ac maent yn ymwneud â phob agwedd ar waith Theatr Iolo.

Prif gyfrifoldebau'r rôl

Mae gofyn am sgiliau cyfathrebu ardderchog yn y rôl hon, ac fe fydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arweinydd profiadol sydd yn hyrwyddo datblygiad cydweithwyr ac yn annog pob un i godi llais a mynegi'i hun.

Strategaeth

- datblygu, mynegi a chyflwyno gweledigaeth artistig y cwmni yn unol â'r weledigaeth a'r amcanion arweiniol;
- siapio twf a chynaliadwyedd y cwmni;
- creu cynllun artistig ar gyfer y cwmni;
- datblygu a gweithredu'r Strategaeth Dysgu Creadigol, ac arwain ymgysylltiad addysgol trwy gyfrwng gweithdai, prosiectau a chynyrchiadau;
- cynllunio, gweithredu a gwerthuso rhaglen y cwmni o weithgareddau;
- cyfrannu at gynllun busnes y cwmni;
- gweithio ar y cyd â'r Rheolwr Cyffredinol i ddatblygu a monitro cynlluniau strategol y cwmni;
- monitro ac ymateb i dueddiadau a datblygiadau allweddol yn y celfyddydau;
- meithrin a chryfhau cydweithrediadau a phartneriaethau creadigol;
- cyfarwyddo gwaith a chomisiynu gwaith gan gyfarwyddwyr a gweithwyr creadigol llawrydd eraill;
- gweithio gyda phartneriaid addysgol i ymgorffori'r celfyddydau'n strategol yn y ddarpariaeth addysg leol, ranbarthol a chenedlaethol
- cynyddu'r gynulleidfa ar gyfer gwaith y cwmni;
- cyfrannu at strategaethau Cyfathrebu a Datblygu Cynulleidfaoedd;
- goruchwyllo gweithrediad holl bolisiau'r cwmni.

Cynhyrchu

- cynorthwyo â'r gwaith o greu cyllidebau cynhyrchu;
- goruchwyllo gweithgareddau teithiol y cwmni, ar y cyd â'r Gweinyddwr a'r Cynhyrchwyr;
- datblygu perthynas â phartneriaid cyd-gynhyrchu, lleoliadau a chyrrff diwydiannol;
- cychwyn gweithgareddau sy'n datblygu artistiaid a chwmnïau addawol;
- goruchwyllo gwerthusiad o weithgareddau'r cwmni;
- ymgymryd â gweithgarwch ymchwil a datblygu.

Gweinyddu a Rheoli

- bod yn rheolwr llinell i bob aelod o staff creadigol llawrydd;
- rheoli a datblygu adroddiadau llinell a goruchwyllo staff craidd a llawrydd ac aelodau eraill o staff tymor byr yn ôl yr angen;
- cymryd rhan mewn prosesau recriwtio a gwerthuso ar gyfer pob aelod o'r staff craidd;
- cyfrannu at weithgareddau codi arian y cwmni trwy ddatgan gweledigaeth gref;
- mynychu a gwneud adroddiadau yng nghyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'i weithgorau.

Llywodraethu a Chyllid

- goruchwyllo rheolaeth ariannol effeithiol y cwmni ar y cyd â'r Rheolwr Cyffredinol;
- goruchwyllo strategaeth ariannol gyffredinol y cwmni;
- sicrhau bod y cwmni'n parchu ei oblygiadau statudol a chyfreithiol bob amser.

Cyffredinol

- rheoli perthnasoedd â phob prif randdeiliad, cyllidwyr a'r Llywodraeth, ar y cyd â'r Rheolwr Cyffredinol;
- cynrychioli'r cwmni mewn cyfarfodydd, seminarau, cynadleddau a digwyddiadau cyhoeddus;
- ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill ar gais Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.



Manylion Personol

Gwybodaeth	Hanfodol	Dymunol
Dealltwriaeth gadarn o'r theatr a thirwedd theatrig y DG	✓	
Dealltwriaeth gadarn o theatr i gynulleidfaoedd ifanc	✓	
Dealltwriaeth nodweddion llywodraethu effeithiol ynghyd â'r gallu i weithio yn dda gyda'r bwrdd rheoli	✓	
Dealltwriaeth o'r tirwedd addysgol yng Nghymru		✓

Profiad	Hanfodol	Dymunol
Profiad sylweddol o gyfarwyddo a chynhyrchu cynyrchiadau theatrig a datblygu gwaith newydd	✓	
Profiad a gallu cydnabyddedig i ddenu ac i gydweithio gydag artistiaid o'r safon uchaf	✓	
Profiad o reoli prosiectau a rhaglenni Dysgu Creadigol a'r sector Addysg Gelfyddydol	✓	
Profiad o reolaeth ariannol a rheolaeth gyllidebol	✓	
Profiad o farchnata a datblygu cynulleidfaoedd		✓
Profiad o ddatblygu a gweithredu cynlluniau busnes effeithiol		✓
Profiad o reoli staff, gallu i ddirprwyo, gallu i reoli pobl ac i ddatrys gwrthdaro a rheoli perfformiad	✓	

Nodweddion	Hanfodol	Dymunol
Huoddedd a sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar ardderchog	✓	
Cymhelliant uchel, gweithredol wrth ddatblygu eich syniadau eich hun	✓	
Sgiliau cyfathrebu ardderchog a gallu i ddylanwadu, i greu perthnasoedd cryfion ac i gynllunio ar y cyd ag ystod amrywiol o randdeiliaid, yn fewnol ac yn allanol	✓	
Gallu i ysbrydoli ac ysgogi eraill	✓	
Sgiliau rheoli amser a threfnu rhagorol	✓	
Ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal	✓	
Parodrwydd i deithio ac i weithio oriau anghymdeithasol, yn ôl yr angen	✓	
Ymrwymiad dychmygus a gwerthfawrogiad o bwysigrwydd diwylliant a hunaniaeth Cymru i bob agwedd o waith Theatr Iolo	✓	
Gallu i sgwrsio ac ysgrifennu yn Gymraeg		✓